

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dyddiad Cyhoeddi: 5 Mawrth 2019

STATWS: GWEITHREDU

CATEGORI: IECHYD Y CYHOEDD

Teitl: Rhoi argymhellion yr adolygiad o wasanaethau iechyd rhywiol ar waith – camau gweithredu hyd yn hyn a'r camau nesaf

Dyddiad dod i ben / Adolygu Amh.

Camau i'w Gweithredu gan:

Prif Gyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd
Cyfarwyddwyr Meddygol
Arweinwyr Clinigol Gwasanaethau Iechyd
Rhywiol y GIG
Fferyllfeydd Cymunedol
Gofal Sylfaenol

Gwybodaeth i'w chyflwyno gan:

Ysgrifenyddion y Bwrdd
Ysgrifennydd Grŵp Ysgrifenyddion y Bwrdd
Prif Weithredwyr Byrddau Iechyd Lleol
Cadeiryddion Byrddau Iechyd Lleol
Llywodraeth Cymru, Cyfarwyddwr Cyffredinol
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/Prif
Weithredwr GIG Cymru
Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru
Tîm Gweithrediadau – Iechyd a Gofal
Cymdeithasol
Tîm Cyfathrebu – Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Anfonwyd gan: Dr Frank Atherton, Prif Swyddog Meddygol Cymru

Cyswllt/Cysylltiadau Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru:

*Diogelu Iechyd, Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd
CF10 3NQ*

Dogfen(nau) amgaeedig: Llythyr gan Brif Swyddog Meddygol Cymru

Annwyl Gyfaill,

Rhoi argymhellion yr adolygiad o wasanaethau iechyd rhywiol ar waith – camau gweithredu hyd yn hyn a'r camau nesaf

Mae bron i flwyddyn ers i Iechyd Cyhoeddus Cymru gyhoeddi [Adolygiad o Wasanaethau Iechyd Rhywiol yng Nghymru](#) a oedd yn cynnwys nifer o argymhellion a fyddai'n gwella profiad cleifion a gweithwyr proffesiynol pe baent yn cael eu rhoi ar waith.

Rwyf yn ysgrifennu atoch i ofyn i chi gyfrannu at roi'r argymhellion hyn ar waith ac i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y cynnydd sydd wedi'i wneud yn y meysydd yma hyd yn hyn (efallai nad chi sydd o reidrwydd yn arwain y rhain nac yn gyfrifol amdanynt yn uniongyrchol).

Asesiad o Anghenion, Manyleb y Gwasanaeth Iechyd Rhywiol ac Offeryn Archwilio (Hunanasesu)

Mae un thema yn ymddangos dro ar ôl tro drwy'r adolygiad, sef y pwysau ar y gwasanaethau presennol – mae nifer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau wedi dyblu yn y pum mlynedd diwethaf – a'r gwasanaeth anghyfartal ledled Cymru. Gwelwyd bod rhai carfanau o'r boblogaeth dan anfantais oherwydd diffyg darpariaeth gwasanaethau e.e. pobl mewn carchardai a chymunedau gwledig, a bod eraill yn cael darpariaeth anghyfartal e.e. gwasanaethau a ddarperir drwy ofal sylfaenol, a mynediad at wasanaethau erthylu a'u hargaeledd.

Efallai eich bod chi wedi cynnal asesiad o anghenion lleol erbyn hyn ac yn deall anghenion eich poblogaeth leol yn drylwyr yng nghyswllt gwasanaethau iechyd rhywiol. Er mwyn sicrhau bod yr asesiad o anghenion yn gadarn, mae'r Bwrdd Rhaglen Iechyd Rhywiol wedi cymeradwyo [Manyleb Gwasanaethau Iechyd Rhywiol 2018](#) a ddatblygwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn partneriaeth â grwpiau o randdeiliaid allweddol. Mae'r fanyleb wedi cael ei datblygu er mwyn cwmpasu model o ddarpariaeth gwasanaethau integredig seiliedig ar bolisi cenedlaethol, arferion gorau, anghenion iechyd lleol, ac ymarfer seiliedig ar dystiolaeth. Mae'n cydnabod bod prif gyfraniad y gwasanaeth hwn tuag at iechyd rhywiol cyffredinol yn cynnwys diagnosis, trin heintiau, ac ymyrryd er mwyn atal beichiogrwydd heb ei gynllunio. Mae'r model hwn yn ceisio sicrhau bod gofal iechyd rhywiol o ansawdd uchel, sy'n integredig, yn ddarbodus, ac yn effeithiol, yn cael ei ddarparu.

Dylech ystyried a yw'ch gwasanaethau iechyd rhywiol chi yn bodloni'r safonau sylfaenol yn y fanyleb, a byddwn yn argymhell yn gryf eich bod yn archwilio eich gwasanaethau gan ddefnyddio'r [Offeryn Archwilio \(Hunanasesu\) ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Rhywiol 2018](#). Bydd cynnal yr archwiliad hwn yn eich helpu chi i ddeall sut dylid gwella gwasanaethau lleol, ac i ddatblygu cynllun

gwella gwasanaethau iechyd rhywiol ystyrllon. Bydd yr offeryn archwilio yn helpu Llywodraeth Cymru i gael gwell dealltwriaeth o'r gwelliannau y mae angen eu gwneud o ran gwasanaethau iechyd rhywiol ar lefel leol a chenedlaethol. Ar ôl i chi gwblhau eich archwiliadau a'ch cynlluniau gwella lleol, a fydddech cystal â'u dychwelyd i'r [BlwchPostDiogelulechyd](#) erbyn diwedd mis Mehefin 2019.

Ar hyn o bryd, mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill nifer o gamau gweithredu sy'n deillio o'r adolygiad ar y gweill, a dylech fod yn ymwybodol o'r rhain wrth gynnal eich archwiliad. Mae'r rhain wedi'u hatodi yn Atodiad B.

Yn gywir,



Dr Frank Atherton

Prif Swyddog Meddygol Cymru

Cyfeirnodau

Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. *Adolygiad o Wasanaethau Iechyd Rhywiol yng Nghymru*. [Ar-lein] Ar gael yn: <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/A%20Review%20of%20Sexual%20Health%20in%20Wales%20-%20Final%20Report.pdf> Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru [Cyrchwyd: 25 Chwefror 2019]

Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru *Manyleb Gwasanaethau Iechyd Rhywiol 2018*. [Ar-lein] Ar gael yn: <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/SH%20service%20spec%202018%28Nov%29.pdf> Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru [Cyrchwyd: 25 Chwefror 2019]

Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru *Offeryn Archwilio'r Gwasanaethau Gofal Iechyd 2018* [Ar-lein] Ar gael yn: <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/opendoc/341440> Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru [Cyrchwyd: 25 Chwefror 2019]

Atodiad A

Argymhellion

1. Er mwyn rhoi sylw i annhegwch o ran darpariaeth o wasanaethau, dylai Byrddau Iechyd ddeall anghenion eu poblogaeth a sicrhau bod system ar waith i ddarparu gwasanaethau i grwpiau agored i niwed ac i wella gwasanaethau'n ehangach. Yn benodol:
 - Dylai Byrddau Iechyd sicrhau bod staff yn cael hyfforddiant priodol i ddiwallu anghenion y boblogaeth;
 - Dylai gwasanaethau wella eu gallu drwy ddarparu mwy o glinigau galw heibio;
2. Dylai dulliau atal cenhedlu rheolaidd drwy'r geg fod ar gael ym mhob fferyllfa gymunedol.
3. Dylai Byrddau Iechyd edrych ar gyfleoedd eraill i ymestyn darpariaeth Dulliau Atal Cenhedlu Gwrthdroadwy Hirdymor (DACGH) mewn gofal sylfaenol ac eilaidd.
4. Dylai Byrddau Iechyd ystyried a fyddai contract gwell gyda gofal sylfaenol yn gwella darpariaeth y gwasanaethau i'w poblogaeth.
5. At ddibenion gofal i gleifion unigol, dylid rhannu gwybodaeth berthnasol ymhlith y gweithwyr gofal iechyd proffesiynol cofrestredig a reoleiddir sydd â pherthynas gofal iechyd â'r unigolyn. Dylid ystyried adolygu neu newid y rheoliadau presennol (Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Afiechydon Gwenerol) 1974).
6. Dylid ystyried cyfleoedd ar gyfer defnyddio'r mesurau diagnostig diweddaraf e.e. molecylaidd/prawf pwynt gofal (PPG)/genomig, mewn modelau darparu yn y dyfodol. Dylai Byrddau Iechyd asesu'r angen a chynllunio a darparu hunan-brawf cymunedol priodol ac agos at y claf ar gyfer y boblogaeth maent yn ei gwasanaethu.

Byddai cleifion yn croesawu hunan-brawf, a fyddai ar gael drwy leoliadau cymunedol ac ar-lein, fel dull ychwanegol o gael gwasanaethau iechyd rhywiol.
7. Dylid ystyried diwygio'r fframwaith cyfreithiol fel bod man preswyllo cyffredin claf yn cael ei ddsbarthu fel man ble gellir rhoi triniaeth ar gyfer terfynu beichiogrwydd.
8. Dylai Cymru fod â system o reoli a goruchwyllo achosion sy'n darparu datrysiad cenedlaethol wedi'i rwydweithio ledled y GIG yng Nghymru. Hefyd dylid ystyried cynnwys gwasanaethau iechyd rhywiol heb fod yn rhan o'r GIG (e.e. Cynlluniau Cerdyn Condom) yn y rhaglen meddalwedd hon.

9. Nid yw Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn cael sylw yn yr adolygiad hwn am ei bod yn rhan o'r Adolygiad o'r Cwricwlwm. Fodd bynnag, dylid ystyried datblygu cyfres genedlaethol o wybodaeth am risgiau rhywiol a dylid cyflwyno'r gyfres hon mewn fformat sydd ar gael i gynulleidfa ehangach.

Atodiad B

Cynllun Gwella Gwasanaethau Iechyd Rhywiol 2018-2020

Camau Gweithredu ar gyfer 2018/19

Rhif	Ymrwymiad	Cynnydd hyd yn hyn
1	<p>Er mwyn rhoi sylw i annhegwch o ran darpariaeth o wasanaethau, dylai Byrddau Iechyd ddeall anghenion eu poblogaeth a sicrhau bod system ar waith i ddarparu gwasanaethau i grwpiau agored i niwed ac i wella gwasanaethau'n ehangach. Yn benodol:</p> <ul style="list-style-type: none">• Dylai Byrddau Iechyd sicrhau bod staff yn cael hyfforddiant priodol i ddiwallu anghenion y boblogaeth;• Dylai gwasanaethau wella eu gallu drwy ddarparu mwy o glinigau galw heibio;• Dylai Byrddau Iechyd ystyried a fyddai contract gwell gyda gofal sylfaenol yn gwella darpariaeth y gwasanaethau i'w poblogaeth (<i>Argymhelliad 4 yn yr adolygiad</i>).	<p>Mae manyleb ar gyfer gwasanaethau ac offeryn archwilio wedi cael eu datblygu. Mae Byrddau Iechyd wedi cael y dasg o adolygu eu gwasanaethau yn unol â safonau'r fanyleb a datblygu cynllun gwella gwasanaethau iechyd rhywiol lleol.</p> <p>Mae nyrsys arwain ym maes iechyd rhywiol wedi cwrdd ac maent yn gweithio ar ddatblygu fframwaith cymhwysedd proffesiynol ar gyfer yr holl staff</p> <p>Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cynnal adolygiad o'r broses sgrinio am heintiau a drosglwyddir yn rhywiol (STIs) mewn carchardai er mwyn deall sut i ddiwallu anghenion troseddwy'r o ran iechyd. Mae'r adolygiad hwn yn cynnwys asesu'r broses sgrinio ar hyn o bryd a datblygu llwybrau er mwyn cynnal prosesau sgrinio am heintiau a drosglwyddir yn rhywiol mewn carchardai yn y dyfodol.</p>
2	<p>Dylai dulliau atal cenhedlu rheolaidd drwy'r geg fod ar gael ym mhob fferyllfa gymunedol.</p>	<p>Ar hyn o bryd, mae fferyllwyr ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn cael eu hyfforddi i ddarparu dulliau atal cenhedlu rheolaidd. Bydd hyn yn cael ei dreialu o fis Ebrill 2019 ymlaen, gyda'r bwriad o ymestyn y gwasanaeth i'r holl fyrddau Iechyd.</p>
3	<p>Dylai Byrddau Iechyd edrych ar gyfleoedd eraill i ymestyn darpariaeth Dulliau Atal Cenhedlu Gwrthdroadwy Hirdymor (DACGH) mewn gofal sylfaenol ac eilaidd.</p>	<p>Mae hyfforddiant FSRH ar gael ac mae darpariaethau atal cenhedlu ôl-enedigol yn cael eu hystyried fel rhan o'r Strategaeth Mamolaeth newydd.</p>
4	<p>At ddibenion gofal i gleifion unigol, dylid rhannu gwybodaeth berthnasol ymhlith y gweithwyr gofal Iechyd proffesiynol cofrestredig a reoleiddir sydd â pherthynas gofal Iechyd â'r</p>	<p>Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio gyda phawb sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau Iechyd rhywiol er mwyn adolygu'r canllawiau presennol a chytuno ar ddealltwriaeth gyffredin o'i ddehongliad.</p>

	<p>unigolyn. Dylid ystyried adolygu neu newid y rheoliadau presennol (Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Afiechydon Gwenerol) 1974).</p>	
5	<p>Dylid ystyried cyfleoedd ar gyfer defnyddio'r mesurau diagnostig diweddaraf e.e. molecylaidd/prawf pwynt gofal (PPG)/genomig, mewn modelau darparu yn y dyfodol. Dylai Byrddau Iechyd asesu'r angen a chynllunio a darparu hunan-brawf cymunedol priodol ac agos at y claf ar gyfer y boblogaeth maent yn ei gwasanaethu.</p> <p>Byddai cleifion yn croesawu hunan-brawf, a fyddai ar gael drwy leoliadau cymunedol ac ar-lein, fel dull ychwanegol o gael gwasanaethau iechyd rhywiol.</p>	<p>Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn datblygu Labordy Diagnostig Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Rhywiol, sy'n cynnig profion PCR ar gyfer yr holl heintiau a drosglwyddir yn rhywiol sy'n gyffredin. Bydd y cyfleuster Cymru-gyfan yma yn weithredol o fis Tachwedd 2019 ymlaen fan bellaf.</p> <p>Mae darpariaeth hunan-brawf, gan gynnwys mynediad ar-lein, yn cael ei dreialu yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar hyn o bryd. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio gyda defnyddwyr gwasanaethau o wahanol grwpiau er mwyn datblygu cyfarwyddiadau hygyrch ar gyfer yr holl animeiddiadau.</p>
6	<p>Dylid ystyried diwygio'r fframwaith cyfreithiol fel bod man preswyllo cyffredin claf yn cael ei ddsbarthu fel man ble gellir rhoi triniaeth ar gyfer terfynu beichiogrwydd.</p>	<p>Ar 29 Mehefin 2018, fe wnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyhoeddi trefniadau terfynu beichiogrwydd diwygiedig, sy'n caniatáu i fenywod gymryd yr ail dabled erthylu yn eu cartref eu hunain. Mae'r trefniadau diwygiedig hyn wedi galluogi cleifion sy'n feichiog hyd at 9 wythnos + 6 diwrnod i fynd adref a chymryd y misoprostol eu hunain er mwyn terfynu'r beichiogrwydd.</p> <p>Mae byrddau Iechyd wedi rhoi'r trefniadau diwygiedig hyn ar waith ers y dyddiad y cafodd yr hysbysiad ei gyhoeddi.</p>
7	<p>Dylai Cymru fod â system o reoli a gorchwyllo achosion sy'n darparu datrysiad cenedlaethol wedi'i rwydweithio ledled y GIG yng Nghymru. Hefyd dylid ystyried cynnwys gwasanaethau Iechyd Rhywiol heb fod yn rhan o'r GIG (e.e. Cynlluniau Cerdyn Condom) yn y rhaglen meddalwedd hon.</p>	<p>Mae achos busnes yn cael ei ddatblygu er mwyn gwneud cais am gyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru.</p>
8	<p>Nid yw Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn cael sylw yn yr adolygiad hwn am ei bod yn rhan o'r Adolygiad o'r Cwricwlwm. Fodd bynnag, dylid</p>	<p>Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cynnal trafodaethau gydag amryw o grwpiau (e.e. pobl â nam ar eu golwg) er mwyn sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu cydnabod a'i fod yn mynd i'r afael â nhw. Drwy'r cynllun</p>

	<p>ystyried datblygu cyfres genedlaethol o wybodaeth am risgiau rhywiol a dylid cyflwyno'r gyfres hon mewn fformat sydd ar gael i gynulleidfa ehangach.</p>	<p><i>Arloesi i Arbed</i>, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid i greu gwybodaeth hygyrch am iechyd rhywiol a'i hybu. Bydd hyn yn galluogi unigolion i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth yng nghyswllt eu hanghenion iechyd rhywiol ac yn sicrhau bod y gwasanaethau yn cael eu defnyddio mewn modd effeithiol.</p>
--	---	--